# Cyflwyniad i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i garchardai yng Nghymru

gan Gadeirydd Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol

Hydref 2023

**Cyflwyniad**

1. Mae gan y Byrddau Monitro Annibynnol ddyletswydd statudol i fonitro amodau mewn carchardai ledled Cymru a Lloegr a rhoi gwybod a gynhelir safonau cywir o ran gofal a pharch. Eu rôl yw edrych ar ganlyniadau carcharorion mewn perthynas â'u triniaeth diogel, teg a dyngarol, eu hiechyd a'u lles, a'u cynnydd a'u hailsefydlu.

2. Mae'r Byrddau Monitro Annibynnolhefyd yn rhan o Beirianwaith Atal Cenedlaethol (yr NPM) y DU a sefydlwydwyd dan Brotocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Artaith, i atal triniaeth annyngarol mewn mannau lle cedwir pobl yn gaeth.

3. Seilir y cyflwyniad ar ganfyddiadau ac arsylwadau diweddar pum Bwrdd Monitro Annibynnol oedd yn monitro mewn carchardai ledled Cymru (Byrddau Monitro Annibynnol yn y Berwyn, Caerdydd, y Parc, Abertawe, Brynbuga a Phrescoed). Yn y cyflwyniad ceir canfyddiadau'n ymwneud â gorboblogi, diogelwch, amodau byw, darpariaeth adsefydlu ac ailsefydlu er mwyn rhoi sylw i'r cwestiynau penodol a ganlyn o gylch gorchwyl y tîm ymchwilio:
   – Ydi carchardai Cymru yn addas i bwrpas o ran amodau byw, gorboblogi a diogelwch mewn carchardai?
   – Ydi carchardai Cymru yn addas i bwrpas o ran darparu cyfleusterau addysg ac adsefydlu i garcharorion Cymru?
   – Pa mor fawr yw problem nwyddau a waharddwyd, megis arfau a chyffuriau yng ngharchardai Cymru?

4. Er bod y cyflwyniad hwn wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau Byrddau Monitro Annibynnol mewn perthynas â charchardai Cymru, nid yw'r problemau y tynnir sylw atynt yn newydd nac yn unigryw. Mae Byrddau Monitro Annibynnol wedi bod yn adrodd ar y materion hyn ers sawl blwyddyn ar draws carchardai yng Nghymru a Lloegr.

**Pwyntiau Allweddol**

- Mae gorboblogi'n her sylweddol i garchardai Cymru, o ran diogelwch a chynnal amodau byw a lletyau i safon addas a digonol.
- Mae cyffredinolrwydd cyffuriau anghyfreithlon yn fater enbyd yn y rhan fwyaf o garchardai yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwydd diweddar mewn sylweddau seicoweithredol newydd. Gallai hyn godi'r risg o drais a/neu hunan-niweidio.

- Mae gofal iechyd meddwl yn bryder allweddol. Dywedodd nifer o Fyrddau Monitro Annibynnol bod gan garcharorion lefelau uchel o anghenion o ran iechyd meddwl, nad oeddynt bob tro'n cael eu bodloni. Roedd y rhan fwyaf o Fyrddau Monitro Annibynnol yn bryderus ynghylch y cyfnodau hir yr oedd carcharorion oedd yn ddifrifol sâl yn eu hwynebu i gael eu trosglwyddo i unedau iechyd meddwl diogel.
- Mae pwysau ar nifer y carcharorion a phrinder staff wedi ei gwneud yn gynyddol heriol i garchardai roi gwasanaethau a gofal digonol i garcharorion.

**Canfyddiadau**

*Gorboblogi*

5. Roedd gorboblogi'n bryder allweddol i Fyrddau Monitro Annibynnol y Berwyn ac Abertawe.Roedd y Bwrdd yn Abertawe yn bryderus bod y pwysau ar nifer y carcharorion yn cael ystod eang o effeithiau negyddol, yn cynnwys oedi wrth gynnal a chadw celloedd a mannau gweithio annigonol i nifer y carcharorion a gedwir yno. Yn y Berwyn, canfu'r Bwrdd fod gorboblogi'n peryglu diogelwch. Cynyddodd ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion 48% yn Chwefror 2023, ac ymddangosai fod hyn yn gysylltiedig ag 'Operation Safeguard'. Dywedai carcharorion fod anhapusrwydd gyda'r trefniadau o ran rhannu cell yn rhywbeth cyffredin i sbarduno trais ac roedd y ffaith bod gormod o garcharorion yn yr uned ar wahân yn ei gwneud yn anos rhoi llety i garcharorion yr oedd angen iddynt gael eu gwahanu er mwyn gwarchod eu hunain.

6. At hyn, arweiniodd pwysau nifer y carcharorion yng ngharchardai Cymru a Lloegr at nifer o garcharorion allardal yn cal eu dal mewn carchardai yng Nghymru. Cododd Byrddau Monitro Annibynnol y Berwyn, Abertawe, Caerdydd a'r Parc i gyd yr anawsterau penodol yr oedd y carcharorion hyn, oedd yn aml yn cael eu dal ymhell oddi wrth eu teuluoedd, yn eu hwynebu.Nododd Bwrdd Monitro Annibynnol y Berwyn bod y carcharorion hyn yn anos i'r staff eu trin gan y byddent yn llai tebygol o fod yn eu hadnabod.

*Diogelwch*

7. Yn y Berwyn, adroddodd y Bwrdd fod trais wedi parhau'n bryder enbyd ers iddo gynyddu'n sylweddol yn Chwefror 2023. Bu mewnlifiad o aelodau grŵp troseddol cyfundrefnol wedi'u trosglwyddo o garchardai yng ngogledd-orllewin Lloegr, megis carchardai Lerpwl a Manceinion, ac mae'r rhain wedi bod yn her sylweddol i'r carchar. Roedd Bwrdd Monitro Annibynnol Brynbuga/Prescoed hefyd yn bryderus ynghylch dylanwad aelodau o grwpiau troseddol cyfundrefnol ar garcharorion categori D. Yn y Parc, roedd cynnydd sydyn mewn trais rhwng Ebrill ac Awst 2023 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022.

8. Codwyd hunan-niweidio'n bryder gan Fyrddau Monitro Annibynnol Caerdydd a'r Parc, gyda'r ddau yn adrodd ar gynnydd mewn hunan-niweidio yn 2023. Yn Abertawe, nododd y Bwrdd Monitro Annibynnol bod staff yn cael trafferth i gwblhau ffurflenni ar gyfer y broses Asesu, Gofal yn y Carchar a Gwaith Tîm, sef

proses a ddefnyddir i gefnogi carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio, yn gywir ac yn amserol.

9. Roedd y ffaith bod eitemau anghyfreithlon ar gael yn bryder mewn nifer o garchardai yng Nghymru (Abertawe, Caerdydd, y Berwyn a'r Parc) Yng Nghaerdydd ac Abertawe cafwyd niferoedd cynyddol o garcharorion dan ddylanwad sylweddau seicoweithredol newydd. Yng Nghaerdydd, mae'r cynnydd mewn cymryd cyffuriau wedi'i gysylltu â chynnydd mewn hunan-niweidio a thrais. Yn y Berwyn mae wedi'i gysylltu ag angen iechyd meddwl, a wnaed yn waeth gan garcharorion yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon fel meddyginiaeth.

10. Er bod staff y carchar wedi cymryd camau i gyfyngu ar y cyffuriau anghyfreithlon oedd ar gael, adroddodd Byrddau Monitro Annibynnol mai ychydig o lwyddiant oedd i rai o'r mesurau hyn. Nododd y Bwrdd yng Nghaerdydd bod cymryd cyffuriau'n codi er gwaethaf chwilio'n fwy trwyadl a chynnydd yn nifer y nwyddau anghyfreithlon a ganfyddir. Yn y Berwyn, er bod ymdrechion ar y cyd yn cael eu gwneud i'w hatal, mae eitemau anghyfreithlon wedi dod yn fwy cyffredin ers i nifer aelodau grwpiau troseddau cyfundrefnol godi. Bu hefyd gynnydd yn nifer y nwyddau anghyfreithlon a ollyngir gan ddronau, oherwydd cynnydd yn y llwyddiant mewn atal cyffuriau yn y dderbynfa.

*Amodau byw*

11. Roedd amodau byw yn amrywio ledled carchardai Cymru. Yn Abertawe a Chaerdydd, roedd oed adeiladau'r carchar yn ei gwneud yn anodd cynnal y celloedd i safon ddigonol. Roedd amodau'n arbennig o wael yng Nghaerdydd, gyda phroblemau plâu ar draws y carchar, y dŵr poeth yn methu dro ar ôl tro a gwres hynod uchel ar rai adeiniau yn ystod yr haf. Yn y Berwyn ac Abertawe, bu oedi cyn ailwampio celloedd oherwydd gorboblogi.

*Adsefydlu ac ailsefydlu*

12. Adroddodd pob Bwrdd yng Nghymru ar faterion yn ymwneud ag adsefydlu ac ailsefydlu.Roedd prinder staff yn yr unedau rheoli troseddwyr yn y Parc a'r Berwyn yn cael effaith ar y gwasanaethau a roddwyd i garcharorion. Ym Mrynbuga/Prescoed, adroddodd y Bwrdd y bu oedi gyda gwrandawiadau parôl neu eu bod wedi'u canslo ar fyr rybudd ac nad oedd y Gwasanaeth Prawf wastad yn cwrdd â'i gyfrifoldebau. O ran ailsefydlu, nododd y Bwrdd hefyd drafferthion gyda chanfod gwaith i garcharorion Brynbuga pan gaent eu rhyddhau. Yn Abertawe, er bod gwaith ailsefydlu, at ei gilydd, o safon uchel, roedd y Bwrdd yn bryderus y gallai hyn gael ei danseilio oherwydd nad oedd llety addas ar gael i garcharorion unwaith y caent eu rhyddhau.

*Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gofal iechyd*

13. Roedd gofal iechyd meddwl yn faes o bryder allweddol i nifer o Fyrddau Monitro Annibynnol, yn cynnwys Abertawe, y Parc, Caerdydd a'r Berwyn. Nododd y Byrddau yn Abertawe, Caerdydd a'r Berwyn nid yn unig lefelau uchel yr angen, nad oedd wastad yn cael eu bodloni, ond hefyd yr oedi sylweddol wrth drosglwyddo carcharorion oedd yn ddifrifol sâll i unedau iechyd meddwl diogel.

14. Nododd Bwrdd Monitro Annibynnol y Berwyn fod galw gormodol ar y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, o gofio lefel uchel yr angen ymhlith y carcharorion. Yn Abertawe, adroddodd y Bwrdd nad oedd cyllid parhaus ar gael er bod y rhaglen 12-cam yn gweithio'n dda.

*Eiddo*

15. Roedd problemau'n ymwneud ag eiddo'n gyffredin, gyda thri Bwrdd (y Berwyn, y Parc a Chaerdydd) yn adrodd fod nifer sylweddol o eiddo yn parhau i fynd ar goll. Roedd y rhain yn digwydd gan amlaf wrth drosglwyddo rhwng carchardai. Nododd y Bwrdd yn y Parc nad oedd dogfennau a restrai eitemau carcharor ar gael yn aml iawn neu nid oedd carchardai eraill wedi'u cwblhau.

**Prinder staff**

16. Nodwyd bod prinder staff ym mhob carchar ac eithrio yn Abertawe.Gwelodd y Byrddau ym Mrynbuga/Prescoed a'r Berwyn nad oedd llawer o staff yn aros. Nododd carchar Brynbuga/Prescoed hefyd bod llawer o staff oedd yn newydd i'r swydd yn gadael y Gwasanaeth Carchardai.Yn aml iawn câi staff yng Nghaerdydd eu symud i garchardai eraill ar ddyletswydd neilltuol, rhywbeth oedd yn cael effaith negyddol ar ba mor dda y gallai'r carchar weithredu. Yn y Parc a'r Berwyn, nid oedd digon o staff o bell ffordd yn yr unedau rheoli troseddwyr.

17. Adroddodd Byrddau Monitro Annibynnol y Parc a'r Berwyn ar broblemau gyda gwaith allweddol yn eu sefydliadau - yn y Berwyn, dywedodd sawl carcharor wrth y Bwrdd nad oeddynt yn gwybod pwy oedd eu gweithwyr allweddol. Nododd Bwrdd Monitro Annibynnol Abertawe mai gwaith allweddol oedd y maes cyntaf i gael ei ddadflaenoriaethu pan oedd prinder staff yn y carchar.

**Elisabeth Davies** **Hydref 2023**
Cadeirydd Cenedlaethol y Bwrdd Monitro Annibynnol